

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 8fed Rhagfyr 2021 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Hedd Pugh, Catrin Jones, Idris Jones, Berwyn Harding, Geraint Morgans, Rhys Davies, John P Jones Ynyr Pugh a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan Cadeirydd y Cynghorydd Hedd Pugh. Roedd croeso arbennig i'r Cyng Ynyr Pugh a oedd yn mynychu am y tro cyntaf, a nodwyd mor braf oedd gweld pobl ifanc yn cymryd diddordeb yng ngwaith y Cyngor. Roedd ymddiheuriad gan Cyng. Sion Alun Roberts, Robin Hughes ac Arfon Hughes. (roedd e-bost gan Arfon yn codi rhai materion - gweler 8(h) isod.)
2. Nodwyd gyfle i dderbyn cyflwyniadau gan y cyhoedd. Nid oedd neb yn bresennol felly fe symudwyd ymlaen gyda'r cyfarfod.
3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Hydref ar gynnig y Cyng Idris Jones a'i eilio gan y Cyng. Rhys Davies. Cadarnhawyd hefyd y rhan gaeedig o'r cyfarfod ar gynnig Cyng. Rhys Davies a'i eilio gan Cyng. Berwyn Harding.
4. Materion yn codi
 - a) **Materion Priffyrdd** – adroddwyd ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd ers y tro diwethaf. Yn achos problem dwr a oedd yn parhau ar Bwlch y Groes, gwelwyd fod angen tynnu lluniau i roi tystiolaeth am y sefyllfa, ar adeg rhew ac eira. O ran y llwybr o'r gofgolofn i Minlyn, roedd yr ymateb yn dweud fod cynnydd wedi ei wneud i adfer y sefyllfa gan berchnogion y tir sydd i ogledd y llwybr, ond fod gwaith eto i'w wneud i dorri y coed/gwrych i'r de ohono – roeddynt yn gobeithio darbwyllo y perchnogion i wneud y gwaith.
 - b) **Coeden mynwent Mallwyd** – roedd gohebiaeth gan Miriam Beecroft yn dweud ei bod yn dal i ddisgwyl un amcangyfrif arall cyn penderfynnu. Eglurwyd y byddai y gost yn cael ei rannu gyda'r Eglwys.
 - c) **Prosiect 'Ein Hardal ni – Dolgellau 2035'** – nid oedd yr drafodaeth wedi cymryd lle hyd yma gyda Lindsey Elis Edwards, ond roedd y Cyng Catrin Jones mewn cyswllt a'r Swyddfa.
 - d) **Coeden Nadolig o flaen y Neuadd yn Dinas** – diolchwyd yn fawr iawn i bawb oedd wedi cynorthwyo l'w gosod. Diolchwyd yn arbennig i Geraint Evans, Gwanas am ei rodd o'r goeden fel arfer, a'i ddymuniad i gyfarannu £50 i goffrau Sioe Dinas Mawddwy.
 - e) **Hyfforddiant cynghorwyr cymuned** – nodwyd fod Cyng Arfon Hughes wedi mynychu un cwrs, a oedd yn rhad ac am ddim y tro hwn i'r Cyngor Cymuned. Cefngowyd hyn, a ond gwelwyd y dylid cael dealltwriawth y dylai pob Cynghorydd dalu ei hun os oedd yna unrhyw gost am gyrsiau yn y dyfodol.
 - f) **Arwydd mynwent Mallwyd** – roedd y Clerc wedi siarad a Hedd Bleddyn am hyn, ond yn anffodus nid oedd mewn sefyllfa i wneud arwyddion y tro hwn. Awgrymwyd cwmni yn Nolgellau, a byddai y Clerc yn ymholi erbyn y tro nesaf.
 - g) **Oedi gyda gwasanaethau ambiwlans** – darllenwyd yn llawn yr ohebiaeth. Roedd cynnig y byddai cynrychiolydd yn dod i siarad gyda'r Cyngor, a phenderfynwyd mynd ymlaen a hyn. Gwelwyd fod yn bwysig i bawb gasglu tystiolaeth/achosion ar gyfer y noson.
 - h) **Lori cyflenwi llaeth l'r ysgol** – nid oedd unrhyw ddatblygiad pellach. Yn y cyswllt hyn, codwyd rhai materion yng nghyswllt yr ysgol, a gwelwyd y dylai y Cynghorydd godi hyn yn uniongyrchol gyda'r Llywodraethwyr.
 - i) **Materion o'r cyfarfod caeedig** – adroddodd y Clerc na chafwyd unrhyw ymateb pellach yn dilyn y gohebu ar y mater dan sylw.

5.Materion Cynllunio

Adroddwyd fod dau gais wedi eu cylchredeg I holl Gynghorwyr Mawddwy eisoes, ac ymateb wedi ei ddanfôn, sef;

NP5/74/496 – Trosi adeilad amaethyddol traddodiadol yn anedd menter gwledig a llety gwyliau, a gwaith cysylltiedig yn **Gwastadgoed, Aberangell.**

Roedd gair o gefnogaeth wedi ei ddanfôn. Dywedwyd fod yn dda gweld adeilad amaethyddol traddodiadol yn cael ei adnewyddu ac o fantais i fusnesau amaeth lleol. Dywedwyd hefyd y bydd yn braf gweld enw'r bwthyn arfaethedig yn un Cymreig.

NP5/ 74/482A – Adeiladu ty fforddiadwy (ail-gais) Tir ger y fynwent, Dinas Mawddwy

Roedd gair o gefnogaeth wedi ei ddanfôn, gyda'r un rhesymau ag a roddwyd yn y cais blaenorol, sef;

- Teulu o Gymry Cymraeg lleol, sydd yn cyfrannu I weithgarwch ac economi'r ardal
- Yn gweithio yn lleol, a'r tir yn perthyn I'r teulu. Mor braf yw gweld pobl ifanc eisiau byw a gweithio yn yr ardal.
- Yr adeilad presennol yn furddyn digon hyll, a byddai adeiladu ty yno yn gwella golwg y pentref a'r gymuned.
- Safle delfrydol I wasanaethau dwr, carthffosiaeth a thrydan, a safle yn cael haul rhan fwyaf o'r flwyddyn.
- Ni fydd yr annedd yn amharu ar unrhyw gymdogion nac yn effeithio ar olygfa unrhywun.

NP5/74/333K – Cysgodfa ffram goed a tho rhychiog I orchuddio eisteddle allanol presennol y caffî, a cysgodfa ffram goed atho rhychiog I'w osod o flaen y siop fferm bresennol – **Canolfan Arddio Camlan** . (wedi ei ddsbarthu ymlaenllaw)
Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd fod y Cyngor yn gefnogol I'r cais. Roedd hwn yn fuses lleol sy'n dod a gwaith I'r ardal, ac roedd rhaid cefnogi hyn. Gofynnwyd cwestiwn ynglyn a'r to tywyll, ac y dylid awgrymu cael 'slate blue' fel sydd ar adeiladau amaethyddol (Cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Catrin Jones pan drafodwyd hyn, a gadawodd yr ystafell)

NP5/74/305A – Adeiladu ty deulawr arwahan – Tir ger Tydecho, 7 Mawddwy Terrace, Minllyn. (wedi ei ddsbarthu ymlaenllaw)

Adroddwyd am dri llythyr o wrthwynebiad oedd I law y Clerc yng nghyswllt y cais yma, a chawsant eu darllen I'r pwyllgor. Roedd cwestiwn a oedd angen y datblygiad, ac ai ei werthu ymlaen am elw oedd y bwriad? Roedd problem ceir a thraffig ar y stryd yma, sef yr unig ffordd I'r Ysgol lleol. Roedd yna hawl tramwy i gefn tai eraill, ac a fyddai hyn yn cael ei gollu, neu ei gulhau yn ofnadwy. Gofynnwyd ai tir comin sydd yma? A oedd posib sicrhau meddiant lleol I'r ty arfaethedig os oedd caniatad yn cael ei roi?dywedwyd hefyd y byddai y datblygiad yma yn debygol o effeithio ar yr iaith gymraeg, oherwydd nid yw'n debygol y gallai neb brynu y ty am bris y gellir gofyn amdano. Dywedwyd hefyd fod yn bwysig peidio difetha patrwm hanesyddol Ystad y Plas – a'r pensaerniaeth arbennig. Onid oedd caniatáu hyn yn golygu fod y tai rhy agos at eu gilydd?

Yn dilyn trafodaeth faith, penderfynwyd ar gynnig Cyng John P Jones, a'i eilio gan Cyng. Geraint Morgans, a gyda chefnogaeth unfrydol, y dylid gwrthwynebu y cais yma, a defnyddio yr holl resymau a roddwyd ac yn y llythyrau oedd I law.

Cais gan Coed Cymru am sylwadau ynglyn a plannu coed caled ar dir yn Pennant, Llanymawddwy. (wedi ei ddsbarthu ymlaenllaw)
Penderfynwyd fod y Cyngor yn gefnogol l'r cais, ac nid oedd sylwadau.

NP5/74/28A – Trosi cyn feudy yn annedd – Pant Llanymawddwy
Adroddwyd fod newid disgrifiad l'r cais yma, sef **Trosi beudy yn llety gwyliau**

Adroddwyd y gefnogaeth roddwyd y tro diwethaf, a chefnogwyd hyn eto. Nodwyd fod yn bwysig cadw ein teuluoedd ifanc yn yr ardal, ac roedd y teulu yma yn brysur, ac yn bwysig yn ein cymuned I gadw'r iaith a'r diwylliant yn fyw l'r genhedlaeth nesaf.

6. Materion Cyllid.

Cadarnhawyd derbyn ychwanegiad l'r praesept ers y cyfarfod diwethaf, sef swm o £700. Roedd hyn oherwydd y premiwm ychwanegol ar ail-dai a thai gwag – a chytunwyd yn ngyfarfod Ionawr 2021 o'r Cyngor Cymuned I gadw fel a gytunwyd yn wreiddiol. Roedd hyn felly yn ychwanegol i braesept y Cyngor, sef £9500. Roedd yn bwysig deall hyn cyn mynd ymlaen I drafod a phenderfynnu ar braesept 2022-23.

Nodwyd y balansau presennol y cyfrifon sef Cyfri Cyfredol £7,469.53, Cyfri Claddedigaeth £2,320.24 Cyfri Cadw £768.70. Cyfeiriwyd at sefyllfa gwariant y Cyngor o'i gymharu a'r gyllideb, a oedd yn cael ei ddiweddarau yn rheolaidd. Aethpwyd drwy sefyllfa ariannol y Cyngor yn drwyadl, gan adrodd y taliadau a wnaethpwyd hyd yma yn y flwyddyn ariannol, a'r derbyniadau. Ers y cyfarfod diwethaf, roedd tal o £2000 wedi ei wneud I Gyngor Gwynedd am ddarpariaeth toiledau Dinas, a £20 am dorch I Sul y cofio. Yna rhestwyd y taliadau tebygol oedd yn gwynebu y Cyngor hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan gynnwys taliadau o'r Cyfri Claddedigaeth, a oedd yn cynnwys costau torri coeden ym mynwent Mallwyd (yn rhannol gyda'r Eglwys). Penderfynwyd fod rhaid trosglwyddo £1000 o'r cyfri cyfredol l'r cyfri claddu.

Aethpwyd ymlaen I drafod y llythyr oedd I law yn gofyn am benderfyniad gyda praesept 2022-23. Yn dilyn y trafodaeth, penderfynwyd ar gynnig Geraint Morgans, a'l eilio gan Rhys Davies, a gyda chefnogaeth unfrydol y Cyngor, I godi y praesept y swm o £500.

Penderfynwyd talu anfoneb Andrew Johnson am waith ar y cofebau ym mynwent Dinas a Mallwyd sef £600. Nodwyd fod gwaith taclus iawn wedi ei wneud. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Catrin Jones pan drafodwyd hyn.)

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd, ar gynnig Catrin Jones a'l eilio gan Berwyn Harding I godi y gydnabyddiaeth flynyddol I Hefin Davies am dorri gwair mynwent Dinas i £500. Nodwyd fod Hefin yn gwneud gwaith taclus dros ben bob blwyddyn, Nodwyd hefyd fod pob dim yn iawn gyda talu yr yswiriant, sef £152.46.

Atgoffwyd pawb nad oedd anfoneb Tegid Humphreys I law eto, a byddai y Clerc yn siarad ag ef, ac yn atgoffa am yr yswiriant.

Roedd 3 cais am arian I law, a chytunwyd fel a ganlyn;

Ambiwlans Awyr Cymru – penderfynwyd trafod hyn yn y cyfarfod nesaf.
Ty Gobaith - roedd cyfraniad eisoes wedi ei wneud eleni.
Urdd Gobaith Cymru – penderfynwyd peidio cyfrannu.

7. Gohebiaeth.

- a. **Cronfa prosiectau cymunedol** – Parc Cenedlaethol Eryri – adroddwyd am gynnwys e-bost yn rhoi gwybodaeth, sef cefnogaeth ariannol o £100 i £500 brosiectau yn y gymuned sydd yn gynaliadwy ac o fudd economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol o fewn y Parc Cenedlaethol.
- b. **Prosiect tyfu Dyfi** – roedd hwn wedi ei ddsbarthu eisoes gan y Clerc, sef gwybodaeth am y prosiect gan Arfon Hughes, Swyddog cyfathrebu a gweinyddu Ecodyfi.
- c. Cais pellach am gofnodion y Cyngor yn saesneg gan aelod o'r cyhoedd – nodwyd yr e-bost, a bod ateb wedi ei ddanfôn yn dweud fod y cyfan ar ein gwefan, gan gynnwys eglurhad ar sut i ddefnyddio 'google translate' os oedd angen.
- d. **Cyfarfod Blynyddol Eco Dyfi, Nos Fawrth 14eg o Ragfyr** – nodwyd wahoddiad, a gofynnwyd i ddau aelod o'r Cyngor, sef Rhys Davies a Ynwr Pugh os fyddent a diddordeb i fod yn rhan o hyn ar zoom. Addawodd y Clerc ddanfôn y manylion a oedd yn cynnwys y linc.
- e. Roedd poster gan '**cadwch Cymru'n daclus**' i law, a byddai yn cael ei roi ar yr hysbysfwrdd.
- f. Adroddwyd e-bost gan Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn rhoi gwybodaeth am 'Banc Gwirfoddolwyr Argyfwng'

8. Unrhyw Fater arall.

- a) Adroddwyd am y diweddaraf gyda Pwyllgor yr Hen Fynwent gan ein cynrychiolydd arno, sef Cyng Catrin Jones.
- b) Roedd coed wedi cwmpo ar y ffordd i Cefn, Aberangell, ac roedd angen gwybod pwy yw perchennog y tir yma.
- c) Roedd coed wedi cwmpo uwchlaw y gefnffordd A470 ger Brynhyfryd, ac roedd angen dwyn sylw Adran Cefnffyrdd am goed peryglus ar ddwy ochr y ffordd.
- d) Mynegwyd siom a fod sbwriel wedi ei adael ar yr hen ffordd o Minllyn i Aberangell, ac roedd angen tynnu sylw Cyngor Gwynedd.
- e) Roedd gwrych/coed angen ei dorri ar y Gefnffordd A458 rhwng Groeslwyd a Dugoed Bach. Nodwyd nad oedd y gwrych yn cael ei docio yn flynyddol ar y darn dansylw, ac roedd angen ymchwilio ymhellach.
- f) Roedd coed/gwrych yn gordyfu i'r ffordd mewn sawl man, a chyfeiriwyd at Rhiw Ffridd ar y ffordd i Ty'n y Braich, ac hefyd ger Penybont.
- g) Roedd y ffordd yn rhoi mewn ambell fan ar ffordd Cwm Cewydd.
- h) Roedd e-bost y Cyng Arfon Hughes yn gofyn am y diweddaraf gyda tocio'r llwybr o'r gofgolofn i Minllyn, a phernogaeth maes parcio Lawnt y Plas. Hefyd diolch i'r Cyngor Sir am glirio'r coed ar y ffordd mor sydyn adeg storm Arwen, a hefyd diolch i Hefin Davies am glirio'r llwybr o'r capel i Dolybont wedi i goeden ddisgyn a chau'r llwybr.
- i) Mynegwyd geiriau caredig i longyfarch Elfyn Evans y gyrrwr rali ar flwyddyn lwyddiannus iawn.
- j) Adroddwyd am wasanaeth da iawn ger y gofgolofn ar ddiwrnod Sul y Cofio, a diolchwyd yn fawr iawn i bawb.

k) Llongyfarchwyd y Clerc ar dderbyn gwobr ARAgS yn ddiweddar am wasanaeth i amaeth a'r gymuned.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY, NOS FERCHER
26ain Ionawr 2022, 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.20yh.